Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Datganiad i'r Wasg
I'w ryddhau ar unwaith
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

10fed Tachwedd 2019

Trais a bygythiadau trais tuag at weithwyr addysg yn broblem ledled Cymru

Mae undeb addysg fwyaf Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth genedlaethol i atal a lleihau ymddygiad treisgar tuag at weithwyr addysg ac iddi gynnwys mesurau diogelwch i amddiffyn arweinwyr ysgolion a cholegau a'u staff. Mae Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru hefyd yn nodi bod ymddygiadau ymosodol, ymosodiadau, cam-drin geiriol a honiadau di-sail yn erbyn staff ac arweinwyr ysgolion yn digwydd ledled Cymru, ac na all gweithwyr addysg mewn ysgolion barhau i ostwng eu safonau ar yr hyn a ystyrir yn ymddygiad derbyniol.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Mae lefel y trais a'r ymddygiad ymosodol yn erbyn ein haelodau yn broblem. Mae ymddygiad ymosodol, gan gynnwys ymosodiadau corfforol a cham-drin geiriol tuag at staff ac arweinwyr ysgolion yn digwydd ledled Cymru, ac mae angen mynd i'r afael a'r achosion hyn.

"Mae gan bob gweithiwr yr hawl i deimlo'n ddiogel yn ei waith a byddwn yn ceisio gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn clywed pryderon y gweithlu addysg a datblygu strategaeth genedlaethol i atal a lleihau'r ymddygiad hwn."

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

Cynnig 29. Ymgyrch yn erbyn trais a bygythiadau trais tuag at weithwyr addysg

Mae Cynhadledd Cymru yn croesawu'r gefnogaeth y mae'r NEU yn ei rhoi i aelodau sy'n dioddef trais a bygythiadau trais yn y gwaith.

Mae Cynhadledd Cymru yn cydnabod bod ymddygiad mewn ysgolion yn destun pryder, sy'n cael ei effeithio gan ddiffyg cyllid ar draws y sectorau sy'n cael effaith ar bob dysgwr. Mae'r mesurau i ddatblygu hydwythdedd a lles staff yn cael eu croesawu ond nid ydynt yn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol.

Fodd bynnag, gallai Cynhadledd Cymru geisio gwella'r sefyllfa ymhellach i'w haelodau, ac aelodau Undebau eraill, trwy lansio ymgyrch lle mae'r un neges yn cael ei harddangos ym mhob derbynfa sefydliad addysg, yn debyg i'r rhai gellir eu gweld mewn meddygfeydd er enghraifft, gyda'r neges na fydd ymddygiad bygythiol a dychrynol yn cael ei oddef.

Mae Cynhadledd Cymru yn nodi bod ymddygiadau ymosodol, ymosodiadau, cam-drin geiriol a honiadau di-sail yn erbyn staff ac arweinwyr ysgolion ar gynnydd ledled Cymru. Mae hyn yn digwydd ym myd addysg neu mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Cred Cynhadledd Cymru na all aelodau mewn ysgolion barhau i ostwng yr hyn a dderbynnir. Mae'n erydu lles staff yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Felly, mae Cynhadledd Cymru yn cyfarwyddo'r Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru ac NEU Cymru i:

1. Sefydlu gweithgor i nodi achosion – maint dosbarthiadau, toriadau mewn gwasanaethau perthnasol a hygyrchedd i'r cwricwlwm perthnasol.

2. Lobïo Llywodraeth Cymru am strategaeth genedlaethol i atal a lleihau'r ymddygiad hwn i gynnwys mesurau diogelwch i amddiffyn arweinwyr ysgol a cholegau a'u staff.

3. Ddiogelu hyfforddiant wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu staff i ddelio â digwyddiadau treisgar, sarhaus ac ymosodol.

Cysylltiadau'r wasg:

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.

e-bost: stuart.williams@neu.org.uk

Nodyn i olygyddion:

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.